

# Atebion i Gwestiynau nas Cyrhaeddwyd yn y Sesiwn Llawn Answers to Questions not Reached in Plenary

30 Mehefin 1999

30 June 1999

[R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant

[R] signifies the Member has declared an interest

## Cwestiynau i Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol Questions to the Secretary for the Environment and Local Government

### Integrated Transport System Policy

**Q7 Jenny Randerson:** What plans does Peter Law have to initiate an integrated transport system policy for Wales? (OAQ272VB)

**The Secretary for the Environment and Local Government: (Peter Law):** We inherit a commitment to developing a more integrated transport policy in Wales and I have already started discussing with the Environment and Local Government Committee how we take that forward. Local authorities have been asked to produce Local Transport Plans reflecting their transport strategies by August 2000. The overall policy is set out in the Welsh Transport Policy Statement 'Transporting Wales into the Future' published in July last year. The Environment and Local government Committee will consider how it should be implemented taking into account the final report of the Welsh Transport Advisory Group 'The Transport Legacy in Wales' which sets out issues which the Assembly will have to address.

### Polisi System Drafnidiaeth Integredig

**C7 Jenny Randerson:** Pa gynlluniau sydd gan Peter Law i sefydlu polisi system drafnidiaeth integredig ar gyfer Cymru? (OAQ272VB)

**Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol: (Peter Law):** Yr ydym yn etifeddu ymrwymiad i ddatblygu polisi trafndiaeth mwy integredig yng Nghymru ac yr wyf eisoes wedi dechrau trafod gyda Phwyllgor yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol sut mae symud hynny yn ei flaen. Gofynnwyd i'r awdurdodau lleol gynhyrchu Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol sy'n adlewyrchu eu strategaethau trafndiaeth erbyn Awst 2000. Mae'r polisi cyffredinol wedi ei nodi yn Natganiad Polisi Trafnidiaeth Cymru 'Cludo Cymru i'r Dyfodol' a gyhoeddwyd fis Gorffennaf y llynedd. Bydd Pwyllgor yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol yn ystyried sut y dylid ei roi ar waith gan gymryd i ystyriaeth adroddiad terfynol Grŵp Ymgynghorol Trafnidiaeth Cymru 'Etifeddiaeth Trafnidiaeth yng Nghymru' sydd yn nodi pa faterion y bydd yn rhaid i'r Cynulliad roi sylw iddynt.

### Imports and Exports of Waste (Management Plan)

**Q8 Lynne Neagle:** What is the timescale for the review of the UK management plan for imports and exports of waste, and what input will the Assembly have into that review? (OAQ259JS)

**Peter Law:** It is currently proposed to issue a consultation paper on revisions to the UK plan in the autumn and subject to responses received, to publish a revised plan that will come into force in October 2000.

The National Assembly will participate in this review. Lead responsibility for preparing the UK plan currently rests with the Department of the Environment, Transport and the Regions.

### **Mewnforio ac Allforio Gwastraff (Cynllun Rheoli)**

**C8 Lynne Neagle:** Beth yw'r amserlen ar gyfer adolygu cynllun rheoli'r DU ar gyfer mewnforio ac allforio gwastraff, a pha fewnbwn fydd gan y Cynulliad i'r adolygiad hwnnw? (OAQ259JS)

**Peter Law:** Ar hyn o bryd, y bwriad yw cyhoeddi papur ymgynghori ar newidiadau i gynllun y DU yn yr hydref ac, yn amodol ar yr ymatebion a dderbynnir, cyhoeddi cynllun diwygiedig a ddaw i rym ym mis Hydref 2000.

Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cymryd rhan yn yr adolygiad hwn. Mae'r cyfrifoldeb pennaf am baratoi cynllun y DU yn gorffwys ar hyn o bryd gydag Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau

### **South Wales Integrated Fast Transit Scheme**

**Q9 Janice Gregory:** What plans does Peter Law have to support the implementation of the south Wales integrated fast transit (SWIFT) scheme? (OAQ276VB)

**Peter Law:** The SWIFT local authority partners are receiving substantial Transport Grant support of some £5.3 million in 1999-2000 for taking forward their various integrated transport initiatives. The local authorities concerned have been provided with indicative allocations of some £3.3 million in 2000-01 and £355,000 in 2001-02 but will be able to bid for additional resources to supplement these in future bidding rounds. I am about to invite bids for 2000-01.

### **Cynllun Teithio Cyflym Integredig De Cymru**

**C9 Janice Gregory:** Pa gynlluniau sydd gan Peter Law i gefnogi gweithrediad cynllun teithio cyflym integredig de Cymru (SWIFT)? (OAQ276VB)

**Peter Law:** Mae'r partneriaid o blith awdurdodau lleol ar SWIFT yn derbyn cefnogaeth sylweddol ar ffurf Grant Trafnidiaeth gwerth tua £5.3 miliwn yn 1999-2000 er mwyn symud eu gwahanol gynlluniau cludiant integredig yn eu blaenau. Rhoddwyd dyraniadau tybiannol o rhyw £3.3 miliwn yn 2000-01 i'r awdurdodau lleol dan sylw a £355,000 yn 2001-02, ond gallant wneud cais am adnoddau pellach i'w hychwanegu at y rhain mewn cylchoedd ymgeisio yn y dyfodol. Yr wyf ar fin gwahodd ceisiadau am 2000-01.

### **Energy produced from Renewable Resources**

**Q10 Mick Bates:** What plans are being prepared to set a target for the amount of energy produced from renewable resources in Wales? (OAQ268VB)

**Peter Law:** The Government has a UK target of 10 per cent of electricity generated from renewable resources by 2010. The recent Department of Trade and Industry consultation document on renewables raised the question of whether there should be separate targets for Wales and Scotland. Responses to this are currently being considered. It would be sensible to await the analysis of the responses to this consultation paper before deciding whether to set a Welsh target for the generation of electricity from renewables.

## **Ynni a gynhyrchir o Adnoddau Adnewyddadwy**

**C10 Mick Bates:** Pa gynlluniau sy'n cael eu paratoi i bennu targed ar gyfer cyfanswm yr ynni a gynhyrchir o adnoddau adnewyddadwy yng Nghymru? (OAQ268VB)

**Peter Law:** Mae gan y Llywodraeth darged i'r DU o gynhyrchu 10 y cant o'i thrydan o adnoddau adnewyddadwy erbyn 2010. Cododd dogfen ymgynghori ddiweddar gan yr Adran Masnach a Diwydiant y cwestiwn pa un y dylai fod yna dargedau ar wahân i Gymru a'r Alban. Mae'r ymatebion i hyn yn cael eu hystyried ar hyn o bryd. Byddai'n fuddiol aros hyd nes y ceir y dadansoddiad o'r ymatebion i'r papur ymgynghori hwn cyn penderfynu a ddylid pennu targed i Gymru o ran cynhyrchu trydan o ffynonellau adnewyddadwy.

## **Planning Guidelines for Local Authorities**

**Q11 Kirsty Williams:** What plans does Peter Law have to review the planning guidelines for local authorities? (OAQ257VB)

**Peter Law:** The first revision of 'Planning Guidance (Wales): Planning Policy' was published in April this year. I wish to ensure that planning guidance is kept up-to-date and relevant to the needs of Wales, so I am considering the need for a further review of the guidance.

## **Canllawiau Cynllunio i Awdurdodau Lleol**

**C11 Kirsty Williams:** Pa gynlluniau sydd gan Peter Law i adolygu'r canllawiau cynllunio i awdurdodau lleol? (OAQ257VB)

**Peter Law:** Cyhoeddwyd adolygiad cyntaf y 'Canllawiau Cynllunio (Cymru): Polisi Cynllunio' ym mis Ebrill eleni. Yr wyf am sicrhau bod y canllawiau cynllunio yn gyfoes bob amser ac yn berthnasol i anghenion Cymru, felly yr wyf yn ystyried yr angen i adolygu'r canllawiau ymhellach.

## **Strategic Rail Authority (Welsh Representation)**

**Q12 Carwyn Jones:** What are Peter Law's plans to ensure strong representation for Wales on the Strategic Rail Authority? (OAQ261VB) [R]

**Peter Law:** The Strategic Rail Authority is central to the Government's proposals for the railway industry throughout the network, including Wales. The Authority, together with the Rail Regulator, will provide clear, coherent and accountable regulation of the industry, ensuring that the railway is properly integrated with other transport modes. Alun Michael has agreed with the Deputy Prime Minister that there will be representation from Wales on the Authority, which will also consult the National Assembly about the exercise of its functions as they relate to the Assembly's interests. I met Sir Alistair Morton, the Chairman of the shadow Authority, and Mr Michael Grant, the Franchising Director, on 16 June, and had a constructive discussion about railways in Wales.

## **Awdurdod Rheilffyrdd Strategol (Cynrychiolaeth i Gymru)**

**C12 Carwyn Jones:** Beth yw cynlluniau Peter Law i sicrhau cynrychiolaeth gref i Gymru ar yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol? (OAQ261VB) [R]

**Peter Law:** Mae'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol yn ganolog i gynigion y Llywodraeth ar gyfer y diwydiant rheilffyrdd ar hyd a lled y rhwydwaith, gan gynnwys Cymru. Bydd yr Awdurdod, ar y cyd â'r Rheoleiddiwr Rheilffyrdd, yn rheoleiddio'r diwydiant mewn modd

clir, cydlynus ac atebol, gan sicrhau bod y rheilffyrdd yn cael eu hintegreiddio'n briodol gyda dulliau trafndiaeth eraill. Mae Alun Michael wedi cytuno gyda'r Dirprwy Brif Weinidog y bydd gan Gymru gynrychiolaeth ar yr Awdurdod, a fydd hefyd yn ymgynghori â'r Cynulliad Cenedlaethol ynglŷn â'r modd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau, fel y maent yn berthnasol i fuddiannau'r Cynulliad. Bŵm i gyfarfod â Syr Alistair Morton, Cadeirydd yr Awdurdod cysgodol, a Mr Michael Grant, y Cyfarwyddwr Rhyddfrenio, ar 16 Mehefin, a chawsom drafodaeth adeiladol am y rheilffyrdd yng Nghymru.

### **Integrated Transport Authority**

**Q13 Michael German:** What plans does he have to create an integrated transport authority for Wales, and what actions would be needed in order to create such an authority? (OAQ273VB)

**Peter Law:** The establishment of a passenger transport authority for Wales was one of the issues considered by the Welsh Transport Advisory Group in its report 'The Transport Legacy in Wales' published in March. The Group noted that creating a PTA for Wales would have potentially significant administrative and financial implications which the Assembly would need to take into account as part of any assessment of options. Primary legislation would be required to create a PTA and there would have to be major changes in the related organisational structures.

### **Awdurdod Trafnidiaeth Integredig**

**C13 Michael German:** Pa gynlluniau sydd gan Peter Law i greu awdurdod trafndiaeth integredig i Gymru, a pha gamau fyddai'n angenrheidiol i greu awdurdod o'r fath? (OAQ273VB)

**Peter Law:** Yr oedd sefydlu awdurdod trafndiaeth integredig i Gymru yn un o'r materion y roddwyd ystyriaeth iddo gan Grŵp Ymgynghorol Trafnidiaeth Cymru yn ei adroddiad 'The Transport Legacy in Wales', a gyhoeddwyd fis Mawrth. Nododd y Grŵp y byddai creu awdurdod o'r fath i Gymru yn golygu goblygiadau gweinyddol ac ariannol a allai fod yn sylweddol a byddai'n rhaid i'r Cynulliad gymryd hynny i ystyriaeth wrth asesu'r opsiynau. Byddai'n rhaid cael deddfwriaeth sylfaenol i greu awdurdod trafndiaeth integredig a byddai'n rhaid wrth newidiadau mawr yn y strwythurau cyfundrefnol cysylltiol.

### **Environmental Impact Assessment (Usk Valley)**

**Q14 David Davies:** Will Peter Law ensure that an environmental impact assessment is carried out in the Usk Valley before giving support to the proposed Welsh Rugby Union centre for excellence? (OAQ263JS)

**Peter Law:** Advice is currently being prepared by officials on the issue of whether this proposed development requires environmental impact assessment. I shall ensure that Mr Davies is informed of the decision when it has been made.

### **Asesiad Effaith Amgylcheddol (Dyffryn Wysg)**

**C14 David Davies:** A wnaiff Peter Law sicrhau y ceir asesiad effaith amgylcheddol yn Nyffryn Wysg cyn y rhoddir cefnogaeth i'r ganolfan ragoriaeth arfaethedig gan Undeb Rygbi Cymru? (OAQ263JS)

**Peter Law:** Mae cyngor yn cael ei baratoi ar hyn o bryd gan y swyddogion ynglŷn â'r angen am asesiad effaith amgylcheddol neu beidio yng nghyswllt y datblygiad arfaethedig hwn.

Byddaf yn gwneud yn siwr y caiff Mr Davies wybod am y penderfyniad ar ôl iddo gael ei wneud.

### **Windshielding on the M4 (Briton Ferry)**

**Q15 Peter Black:** Will Peter Law commission further research into windshielding on the Briton Ferry section of the M4? (OAQ253JS)

**Peter Law:** At design stage, the cost of providing wind shielding for this structure (in the order of £1.3 million), could not be justified because it was considered that the number of occasions on which use would be restricted would be low and the A48 provides a viable alternative route.

A management plan to deal with exceptionally high winds was put in place for the police to operate if needed. For wind speeds between 35 and 50mph, warning signs are set on the motorway. When wind speeds exceed 50 mph the bridge is generally closed, dependent on wind direction. On average the bridge has been closed on four occasions each year since its opening in 1994

In 1997, the Department commissioned investigations into the feasibility of providing wind shielding and a technical report was received by the Department last September.

The report details the further investigations needed before the relative merits of feasible options can be properly appraised. The Department's very tight budget constraints mean that the further investigative work required has been allocated a low priority in the Department's programmes and no further work is planned for this financial year. The position will be reviewed once confirmation of the resources available for next financial year has been received.

### **Amddiffynfeydd Gwynt ar yr M4 (Llansawel)**

**C15 Peter Black:** A wnaiff Peter Law gomisiynu ymchwil bellach i roi amddiffynfeydd gwynt ar hyd rhan Llansawel o'r M4? (OAQ253JS)

**Peter Law:** Pan oedd y ffordd yn cael ei dylunio, ni ellid cyfiawnhau'r gost o ddarparu amddiffynfeydd gwynt i'r strwythur hwn (oddeutu £1.3 miliwn), oherwydd tybiwyd mai prin fyddai'r achlysuron pan fyddai'n rhaid cyfyngu ar y defnydd o'r ffordd a bod yr A48 yn cynnig ffordd amgen addas.

Sefydlwyd cynllun rheoli ar gyfer delio â gwyntoedd anarferol o gryf, i'w roi ar waith gan yr heddlu pe bai raid. Os bydd cyflymdra'r gwynt rhwng 35 a 50 mya, codir arwyddion rhybuddio ar y draffordd. Pan fydd cyflymdra'r gwynt yn uwch na 50 mya caiff y bont ei chau fel arfer, yn ddibynnol ar gyfeiriad y gwynt. Ar gyfartaledd, bu'r bont ar gau pedair gwaith y flwyddyn ers ei hagog yn 1994.

Yn 1997, comisiynodd yr Adran ymchwiliadau i ddichonoldeb darparu amddiffynfeydd gwynt a derbyniodd yr Adran adroddiad technegol fis Medi diwethaf.

Mae'r adroddiad yn nodi'n fanwl pa ymchwiliadau pellach sy'n ofynnol cyn y gellir pwysu a mesur rhinweddau cymharol opsiynau dichonadwy. Mae'r cyfyngiadau llym iawn ar gyllideb yr Adran yn golygu mai blaenoriaeth isel a roddwyd yn rhaglenni'r Adran i'r gwaith ymchwiliol pellach sy'n ofynnol ac nid oes unrhyw waith pellach wedi ei gynllunio ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Adolygir y sefyllfa unwaith y ceir cadarnhad o'r adnoddau fydd ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

## **Former Phurnacite Plant at Abercwmboi**

**Q16 Christine Chapman:** What further measures does Peter Law propose to put in place to improve the land at, and the land surrounding, the former Phurnacite plant at Abercwmboi? (OAQ264VB)

**Peter Law:** The former Phurnacite plant site has been included in the Welsh Development Agency's rolling land reclamation programme for a number of years, and the Agency submitted a planning application to the former Mid Glamorgan County Council in January 1995. Since then, the Agency has worked with the Council to resolve various technical differences and has undertaken additional site investigation works. The Agency submitted the supplementary information to the Council in February of this year and requested a timetable for its consideration of the planning application. The Council hopes to consider the application in July or September. Subject to the Council's decision, works could commence within 12 months.

## **Hen Waith Phurnacite yn Abercwmboi**

**C16 Christine Chapman:** Pa gamau pellach a gynigir gan Peter Law i wella tir yr hen waith Phurnacite yn Abercwmboi, a'r tir cyfagos? (OAQ264VB)

**Peter Law:** Mae safle'r hen waith Phurnacite wedi ei gynnwys yn Raglen dreigl Awdurdod Datblygu Cymru i adennill tir ers nifer o flynyddoedd, a chyflwynodd yr Awdurdod gais cynllunio i hen Gyngor Sir Morgannwg Ganol ym mis Ionawr 1995. Ers hynny, mae'r Awdurdod wedi gweithio gyda'r Cyngor i ddatrys nifer o anawsterau technegol ac wedi ymgymryd â gwaith ymchwilio pellach ar y safle. Cyflwynodd yr Awdurdod wybodaeth atodol i'r Cyngor ym mis Chwefror eleni, gan ofyn iddo nodi ei amserlen ar gyfer ystyried y cais cynllunio. Mae'r Cyngor yn gobeithio ystyried y cais ym mis Gorffennaf neu fis Medi. Yn amodol ar benderfyniad y Cyngor, gellid dechrau gweithio yno o fewn 12 mis.

## **Recycling Strategy**

**Q17 Christine Humphreys:** Will Peter Law outline the strategy he will implement to meet Government targets for recycling in Wales? (OAQ274JS)

**Peter Law:** We need to increase the amount of waste we recycle in Wales. The Welsh Office and the Department of the Environment, Transport and the Regions have today published for consultation 'A Way With Waste: A Draft Waste Strategy for England and Wales'. It sets goals for future waste management including recycling and identifies a range of policy options. The draft strategy makes it clear that it will be for the National Assembly to determine how to take forward the strategy in Wales.

## **Strategaeth Ailgylchu**

**C17 Christine Humphreys:** A wnaiff Peter Law amlinellu'r strategaeth y bydd yn ei rhoi ar waith er mwyn cyflawni targedau'r Llywodraeth ar gyfer ailgylchu yng Nghymru? (OAQ274JS)

**Peter Law:** Mae angen inni ailgylchu mwy o wastraff yng Nghymru. Mae'r Swyddfa Gymreig ac Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau wedi cyhoeddi 'A Way With Waste: A Draft Waste Strategy for England and Wales' heddiw, ar gyfer ymgynghori. Mae'n nodi targedau o ran rheoli gwastraff i'r dyfodol gan gynnwys ailgylchu, ac mae'n rhestru amryw o opsiynau polisi. Mae'r strategaeth ddrafft yn ei gwneud hi'n glir mai mater i'r Cynulliad Cenedlaethol fydd penderfynu sut i symud y strategaeth yn ei blaen yng Nghymru.

## Community Councils and Best Value

**Q18 Helen Mary Jones:** What arrangements does Peter Law intend to make with regard to community councils and Best Value? (OAQ271VB)

**Peter Law:** Community councils in Wales are defined as Best Value authorities in the Local Government Bill which is currently being considered by Parliament. We recognise that a statutory duty could be onerous if applied in full to the smaller town and community councils. Therefore, the Bill enables the Assembly, following discussion with the town and community council associations, to set a de-minimis threshold below which the duty of Best Value would not apply.

In due course I intend to bring forward for the Assembly's consideration an order which will set such a de-minimis threshold.

## Cynghorau Cymuned a Gwerth Gorau

**C18 Helen Mary Jones:** Pa drefniadau y mae Peter Law yn bwriadu eu gwneud mewn perthynas â chynghorau cymuned a Gwerth Gorau? (OAQ271VB)

**Peter Law:** Mae cynghorau cymuned yng Nghymru wedi eu diffinio fel awdurdodau Gwerth Gorau yn y Mesur Llywodraeth Leol sy'n cael ei ystyried gan y Senedd ar hyn o bryd. Yr ydym yn cydnabod y gallai dyletswydd statudol fod yn feichus pe bai'n rhaid i'r cynghorau tref a chymuned llai ei hysgwyddo'n llawn. Mae'r Mesur felly yn galluogi'r Cynulliad, ar ôl trafod gyda chymdeithasau'r cynghorau tref a chymuned, i bennu trothwy di-minimis; ni fyddai gofyn rhoi'r ddyletswydd gwerth gorau ar waith islaw i'r trothwy hwnnw.

Maes o law bwriadaf ddod â gorchymyn a fydd yn pennu'r trothwy de minimis gerbron i'w ystyried gan y Cynulliad.

## Local Government Reorganisation

**Q19 Janet Davies:** Will Peter Law make a statement on the impact of the recent local government reorganisation on the aims of efficiency, effectiveness, accountability and closeness to the people? (OAQ278VB)

**Peter Law:** The old system of two-tier local government in Wales in place prior to reorganisation in 1996 had the potential for duplication of administration, and inefficient and uneconomic methods of service delivery. Lack of understanding of the roles of the two tiers undermined direct accountability to local people.

The establishment of unitary authorities in 1996, based as far as possible on the sense of community which is so important in Wales, made local government more accountable to local people and provided the structures to allow local authorities to provide all services in a more efficient and effective way. Best value will continue this process and encourage local authorities to provide the services local people want at a price they are willing and able to pay.

## Ad-drefnu Llywodraeth Leol

**C19 Janet Davies:** A wnaiff Peter Law ddatganiad am effaith yr ad-drefnu diweddar ar lywodraeth leol ar amcanion effeithiolrwydd, effeithlonrwydd, atebolrwydd ac agosatrwydd at y bobl? (OAQ278VB)

**Peter Law:** Gyda'r hen system ddwy haen o lywodraeth leol oedd ar waith yng Nghymru cyn yr ad-drefnu yn 1996, yr oedd posibl y ceid dyblygu gweinyddiaeth, a dulliau aneffeithiol ac aneconomaidd o gyflwyno gwasanaethau. Yr oedd diffyg dealltwriaeth o rôl y ddwy haen yn tansilio atebolrwydd uniongyrchol i bobl leol.

Gyda sefydlu'r awdurdodau unedol yn 1996, wedi eu seilio cyn belled ag yr oedd hynny'n bosibl ar yr ymdeimlad o gymuned sydd mor bwysig yng Nghymru, gwnaed llywodraeth leol yn fwy atebol i bobl leol a darparwyd strwythurau i ganiatáu i awdurdodau lleol ddarparu'r holl wasanaethau mewn ffordd fwy effeithlon ac effeithiol. Bydd y gwerth gorau yn parhau â'r broses hon ac yn annog awdurdodau lleol i ddarparu'r gwasanaethau y mae pobl leol yn eu dymuno am bris y maent yn barod ac yn abl i'w dalu.

### **Church Village Bypass**

**Q20 Jane Davidson:** In light of the new housing developments along the A473, will Peter Law consider including the proposed Church Village bypass in the priority schemes to be supported by the Assembly after 1 July 1999? (OAQ270VB)

**Peter Law:** I am aware of the benefits and local support for this project. I am about to invite Transport Grant bids for support in 2000-01. All bids submitted will be considered in determining the allocation of the available resources with priorities reflected in settlements made at the end of the year.

### **Ffordd Osgoi Pentre'r Eglwys**

**C20 Jane Davidson:** Yn sgîl datblygiadau tai newydd ar hyd yr A473, a fydd Peter Law yn rhoi ystyriaeth i gynnwys ffordd osgoi arfaethedig Pentre'r Eglwys yn y cynlluniau blaenoriaeth sydd i'w cefnogi gan y Cynulliad ar ôl 1 Gorffennaf 1999? (OAQ270VB)

**Peter Law:** Yr wyf yn ymwybodol o'r manteision ac o'r gefnogaeth leol i'r prosiect hwn. Yr wyf ar fin gwahodd ceisiadau am gefnogaeth ar ffurf Grant Trafnidiaeth yn 2000-01. Caiff pob cais a gyflwynir ei ystyried wrth benderfynu sut mae dyrannu'r adnoddau sydd ar gael, ac adlewyrchir y blaenoriaethau yn y setliadau a wneir ar ddiwedd y flwyddyn.

### **New Wind Farms**

**Q21 Nick Bourne:** What representations has Peter Law received regarding new wind farms in Wales and will he make a statement? (OAQ265VB)

**Peter Law:** To date, I have received two representations about planning policy for windfarms. The Government's planning policy for renewable energy is contained in Planning Guidance (Wales) Planning Policy First Revision, issued in April 1999, and Technical Advice Note (Wales) 8: Renewable Energy. In essence the policy is to encourage the development of renewable energy projects, including wind energy, wherever economically attractive and environmentally acceptable.

### **Ffermydd Gwynt Newydd**

**C21 Nick Bourne:** Pa sylwadau y mae Peter Law wedi'u derbyn ynglŷn â ffermydd gwynt newydd yng Nghymru, ac a fyddai gystal â gwneud datganiad? (OAQ265VB)

**Peter Law:** Hyd yma, yr wyf wedi derbyn sylwadau o ddau du am bolisi cynllunio i ffermydd gwynt. Mae polisi cynllunio'r Llywodraeth ar gyfer ynni adnewyddadwy wedi ei gynnwys yng Nghanllawiau Cynllunio (Cymru): Polisi Cynllunio—Adolygiad Cyntaf, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 1999, a Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 8: Ynni Adnewyddadwy. Yn ei



hanfod, y polisi yw annog datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy, gan gynnwys ynni gwylt, lle bynnag y mae hynny'n ddeniadol yn economaidd ac yn dderbyniol yn amgylcheddol.

### **Improvements in Transportation Infrastructure**

**Q22 Nick Bourne:** What improvements in transportation infrastructure in Wales will Peter Law be proposing in the current year? (OAQ266JS)

**Peter Law:** Our plans for trunk roads and motorways in Wales for this and the following two financial years are detailed in the Welsh Office Departmental Report 1999: 'The Government's Expenditure Plans 1999-2000 to 2001-2002' published in March. Local roads are the responsibility of the appropriate local highway authorities. Local authorities in Wales have been allocated Transport Grant provision of £34.30 million in 1999-2000 to take forward a significant number of local road schemes, integrated transport packages and Safe Route to School projects.

Investment in rail infrastructure is primarily a matter for Railtrack although this year's Transport Grant settlement includes support for park and ride sites and improvements to railway stations. The Welsh Office has been working with Railtrack and the North Wales Economic Forum on a project to raise line speeds on the North Wales Coast Line.

Work is underway to prepare for the budget spending round for the coming public expenditure survey. Transport infrastructure investment for the next three financial years will be discussed in the forthcoming budget planning round.

### **Gwelliannau i'r Seilwaith Trawsgludiaeth**

**C22 Nick Bourne:** Pa welliannau i seilwaith trawsgludiaeth Cymru fydd Peter Law yn eu cynnig yn y flwyddyn gyfredol? (OAQ266JS)

**Peter Law:** Ceir manylion am ein cynlluniau o ran cefnffyrdd a thraffyrdd yng Nghymru yn y flwyddyn ariannol hon a'r ddwy flynedd ddilynol yn Adroddiad Adrannol y Swyddfa Gymreig 1999: 'Cynlluniau Gwariant y Llywodraeth 1999-2000 i 2001-2002' a gyhoeddwyd fis Mawrth. Cyfrifoldeb yr awdurdodau priffyrdd lleol perthnasol yw ffyrdd lleol. Dyrannwyd £34.30 miliwn fel Grant Trafnidiaeth i awdurdodau lleol yng Nghymru yn 1999-2000 i fwrw ymlaen â nifer sylweddol o gynlluniau ffyrdd lleol, pecynnau trafndiaeth integredig a phrosiectau Taith Ddiogel i'r Ysgol.

Mater i Railtrack yn bennaf yw buddsoddi yn y seilwaith rheilffyrdd, er bod setliad Grant Trafnidiaeth y flwyddyn hon yn cynnwys cefnogaeth i safleoedd parcio a theithio a gwelliannau i orsafoedd rheilffordd. Bu'r Swyddfa Gymreig yn gweithio gyda Railtrack a Fforwm Economaidd Gogledd Cymru ar brosiect i godi cyflymdra ar Lein Arfordir Gogledd Cymru.

Mae gwaith ar y gweill i baratoi ar gyfer cylch gwariant y gyllideb drwy'r arolwg gwariant cyhoeddus a gynhelir yn fuan. Caiff buddsoddi yn y seilwaith trawsgludiaeth dros y tair blynedd ariannol nesaf ei drafod yn fuan yng nghylch cynllunio'r gyllideb.

### **Residents in areas bordering the estuary of the River Taff**

**Q23 Owen John Thomas:** What arrangements are in place for the protection of the interests and property of residents in areas bordering the estuary of the River Taff? (OAQ280JS)

**Peter Law:** The Cardiff Bay Barrage Act 1993 makes appropriate provision. Schedule 7 of the Act requires Cardiff Bay Development Corporation to monitor groundwater levels and to carry out remedial work to property or to pay compensation to owners or occupiers of property within the protected area should there be groundwater damage as a result of the construction of the Barrage. Any complaints about the Corporation's exercise of this function may be referred to the Independent Groundwater Complaints Administrator, appointed by the Secretary of State.

### **Trigolion yr ardaloedd sy'n ffinio ag aber Afon Taf**

**C23 Owen John Thomas:** Pa drefniadau sydd ar waith i amddiffyn buddiannau ac eiddo trigolion yr ardaloedd sy'n ffinio ag aber Afon Taf? (OAQ280JS)

**Peter Law:** Ceir darpariaeth briodol yn Neddf Morglawdd Bae Caerdydd 1993. Dan atodlen saith o'r Ddeddf mae'n ofynnol i Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd fonitro lefelau dŵr daear a gwneud gwaith adfer i eiddo neu dalu iawndal i berchenogion neu ddeiliaid eiddo o fewn yr ardal warchod os ceir difrod dŵr daear o ganlyniad i godi'r Morglawdd. Gellir cyfeirio unrhyw gwynion am y modd y mae'r Gorfforaeth yn cyflawni'r swyddogaeth hon at y Gweinyddwr Cwynion Dŵr Daear Annibynnol, a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

### **Road Improvements**

**Q24 Alison Halford:** Will Peter Law consider acting upon the Institute of Welsh Affairs recommendation to start road improvements which will reduce travelling time between north and south Wales by one hour? ( OAQ283JS ) [R]

**Peter Law:** The trunk road strategy document 'Driving Wales Forward', published in July 1998, confirmed the intention to bring forward significant improvements in north-south public transport services complemented by steady and relatively small-scale improvements to the trunk road network. The promised corridor study encompassing the A470 from Brecon to Llandudno has started and will take a further six to nine months to complete. It will also include the A483 and the A487 in north Wales.

The results of the study will enable us to take informed decisions on the most appropriate future strategy for the development of roads and other transport modes in these areas. A programme for implementation of this strategy will then have to be developed in relation to the competing demands for investment in transport infrastructure elsewhere in Wales and the level of funding we are able to allocate to it. The Institute of Welsh Affairs report 'Uniting the Nation', published last month, will be taken into account in this work.

### **Gwelliannau Ffyrdd**

**C24 Alison Halford:** A fydd Peter Law yn ystyried gweithredu ar argymhellid y Sefydliad Materion Cymreig i ddechrau ar welliannau ffyrdd a fydd yn torri awr o amser oddi ar y daith rhwng gogledd a de Cymru? (OAQ283JS) [R]

**Peter Law:** Cadarnhaodd y ddogfen ar y strategaeth cefnffyrdd, 'Gyrru Cymru Ymlaen', a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 1998, mai'r bwriad oedd dod â gwelliannau sylweddol ymlaen yn y gwasanaethau cludiant cyhoeddus rhwng y gogledd a'r de ac, ar yr un pryd, gwneud gwelliannau cyson a chymharol fach i'r rhwydwaith cefnffyrdd. Mae'r astudiaeth goridor a addawyd, yn cwmpasu'r A470 o Aberhonddu i Landudno, wedi dechrau a bydd yn cymryd chwech i naw mis arall i'w chwblhau. Bydd hefyd yn cynnwys yr A483 a'r A487 yng ngogledd Cymru.

Bydd canlyniadau'r astudiaeth yn ein galluogi ni i benderfynu ar y strategaeth fwyaf priodol i'r dyfodol o ran datblygu ffyrdd a dulliau trafnidiaeth eraill yn yr ardaloedd hyn, gan wneud hynny ar sail gwybodaeth. Yna, bydd gofyn datblygu rhaglen i roi'r strategaeth hon ar waith, gan gofio'r gystadleuaeth am fuddsoddi yn y seilwaith trafnidiaeth o rannau eraill o Gymru a lefel y cyllid y gallwn ei neilltuo iddi. Bydd adroddiad y Sefydliad Materion Cymreig 'Uno'r Genedl', a gyhoeddwyd fis diwethaf, yn cael ei gymryd i ystyriaeth yn y gwaith hwn.

### **Signage for the National Assembly Site**

**Q25 Lorraine Barrett:** What plans are in place to ensure that there is adequate and effective signage for the National Assembly site both on the roads leading to Cardiff and within the Cardiff area? (OAQ298VB)

**Peter Law:** Grosvenor Waterside is currently drawing up plans to ensure that local signing is adequate for visitors to reach the National Assembly safely and by the most appropriate route.

### **Arwyddion ar gyfer Safle'r Cynulliad Cenedlaethol**

**C25 Lorraine Barrett:** Pa gynlluniau sydd ar y gweill er mwyn sicrhau bod digon o arwyddion effeithiol ar gyfer safle'r Cynulliad Cenedlaethol ar y ffyrdd sy'n arwain at Gaerdydd ac ar y rhai o fewn ardal Caerdydd? (OAQ298VB)

**Peter Law:** Mae Grosvenor Waterside wrthi ar hyn o bryd yn paratoi cynlluniau i sicrhau bod yr arwyddion lleol yn ddigonol fel bod ymwelwyr yn cyrraedd y Cynulliad Cenedlaethol yn ddiogel ac ar hyd y llwybr mwyaf priodol.

### **Homes without Mains Electricity**

**Q26 Mick Bates:** How many homes in Wales are without mains electricity and what assistance is available to provide them with mains electricity? (OAQ324JS)

**Peter Law:** The results of the 1997 Welsh Household Interview Survey estimate that between 300 and 400 households do not have a mains supply of electricity. Assistance to provide mains electricity may be available through home renovation grant arrangements.

### **Cartrefi heb Drydan o'r Prif Gyflenwad**

**C26 Mick Bates:** Faint o gartrefi yng Nghymru sydd heb drydan o'r prif gyflenwad a pha gymorth sydd ar gael i'w darparu â thrydan o'r prif gyflenwad? (OAQ324JS)

**Peter Law:** Yn ôl amcangyfrifon Arolwg Cyfweliadau Cartrefi Cymru 1997 mae rhwng 300 a 400 o gartrefi heb brif gyflenwad trydan. Gall cymorth i ddarparu prif gyflenwad trydan fod ar gael trwy drefniadau i roi grantiau adnewyddu tai.